# PAPURAU BUSNES

## RHAN 1 - ADRAN A

## AGENDA

## DYDD MERCHER, 10 MAI 2000

**Bydd y cyfarfod yn cychwyn am**

**Cwestiynau i Rhodri Morgan, Ysgrifennydd dros Ddatblygu Economaidd** (15 munud)
Mae rhestr o’r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe’r Siambr)

**Cwestiynau i Edwina Hart, Ysgrifennydd Cyllid** (15 munud)
Mae rhestr o’r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe’r Siambr)

**Pwyllgor Penderfyniad Cynllunio 2000/01**
Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu ar y canlynol:

1. Y dylid sefydlu pwyllgor, i'w alw yn Bwyllgor Penderfyniad Cynllunio 2000/01, yn unol â Rheol Sefydlog 27 i ymgymryd â swyddogaethau'r Cynulliad dan Adran 77(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn perthynas â'r mater a nodwyd yn Atodlen y cynnig hwn ac y dylid dirprwyo swyddogaethau'r Cynulliad mewn perthynas â'r mater hwnnw i'r Pwyllgor hwn;

2. Mai aelodau'r Pwyllgor fydd:

Sue Essex (Cadeirydd)
John Griffiths
Geraint Davies
David Davies

3. Y bydd y Pwyllgor yn dod i ben pan fo Cadeirydd y Pwyllgor yn arwyddo'r llythyr penderfyniad yn unol â Rheol Sefydlog 27.16 neu ar 9 Awst 2000, pa bynnag un ddaw gyntaf.

4. Os daw'r Pwyllgor i ben heb i'r Cadeirydd fod wedi arwyddo llythyr penderfyniad mewn perthynas â'r mater a nodwyd yn Atodlen y cynnig hwn, y bydd y swyddogaethau a nodwyd ym mharagraff 1 uchod, mewn perthynas â'r mater hwnnw, yn cael eu dirprwyo i'r Prif Ysgrifennydd.

**Atodlen**
Cais gan Mr a Mrs S George am ganiatâd i ymgymryd â datblygiad penodol yn 'Portfield Gate',

Hwlffordd, Sir Benfro, sef adnewyddu 'Enfield Homestead', gan gynnwys troi sgubor nad yw'n cael ei defnyddio yn d sy'n sefyll ar ei ben ei hun

**Dadl ar y Newid yn yr Hinsawdd**
Cynnig bod y Cynulliad yn cytuno i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU, Gweithrediaeth yr Alban ac Adran yr Amgylchedd (Gogledd Iwerddon) i wireddu targed Kyoto o ostyngiad o 12.5% mewn gollyngiadau nwyon t gwydr dan lefelau 1990 erbyn 2008-2012 a tharged ar gyfer y DU o ostyngiad o 20% mewn gollyngiadau carbon deuocsid dan lefelau 1990 erbyn 2010 a'i fod yn nodi'r rhaglen newid hinsawdd ddrafft a ddisgrifiwyd yn "Newid Hinsawdd - Cymru" a anfonwyd at Aelodau ar 4 Ebrill 2000

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth – ond bydd y pleidleisiau’n cael eu cymryd yn unigol.

(1+2+4)

(3)

(5+6+7)

(8)

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ar linell 1, dileer y geiriau ‘y Cynulliad’ a rhoi ‘Cynulliad Cenedlaethol Cymru’ yn eu lle.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ar linell 1, cyn y geiriau ‘yn cytuno’, ychwaneger y geiriau ‘o gofio ei gyfrifoldeb statudol i hybu datblygiad cynaliadwy’

**Gwelliant 3 - David Davies (Mynwy);**
Ar ôl ‘2010 a’i fod’, ychwaneger "er hynny, yn cydnabod nad trethi trwm yw’r ffordd orau o gyrraedd y targedau ac yn galw ar Lywodraeth y DU i edrych ar opsiynau heblaw treth ar ynni. Mae’r Cynulliad"

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ar linell 6, ychwaneger ar ôl ‘a’i fod’ y geiriau ‘yn cydnabod y cyfleoedd mawr a geir yng Nghymru ar gyfer diwydiant ynni adnewyddadwy deinamig, yn galw ar gyrff statudol fel Asiantaeth yr Amgylchedd a’r Cyngor Cefn Gwlad, ac awdurdodau lleol i gydweithio’n adeiladol i hybu’r diwydiant hwn tra’n cydnabod hefyd gyfrifoldeb pob sector i ddefnyddio ynni yn sylweddol fwy effeithiol ac’

**Gwelliant 5** - **Christine Humphreys – Gogledd Cymru**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig: -

Er mwyn cynorthwyo Cymru a rhanbarthau eraill y DU i gwrdd â'r targedau a nodwyd yng nghytundeb Kyoto, geilw'r Cynulliad hwn ar i lywodraeth y DU gyflwyno treth carbon fesul cam ar gyfer ynni a gynhyrchir gan ddefnyddio tanwydd ffosiledig gyda'r ymrwymiad y bydd: -

- Cyfran o'r refeniw a gynhyrchir yn cael ei defnyddio i roi cymorth ariannol i fusnesau sy'n defnyddio llawer o ynni, tuag at y gost o fuddsoddi mewn mesurau i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon.
- Cyfran o'r refeniw a gynhyrchir yn cael ei defnyddio i fuddsoddi mewn cludiant cyhoeddus sy'n defnyddio ynni'n effeithlon.
- Cyfran yn cael ei defnyddio i leddfu baich y dreth ar enillion yr unigolyn, gan symud y baich tuag at ddefnydd ynni ac oddi wrth yr unigolyn.

**Gwelliant 6 - Christine Humphreys – Gogledd Cymru**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig: -

Mae'r Cynulliad hefyd yn penderfynu gweithredu strategaeth wastraff ar gyfer Cymru gyfan gyda'r nodweddion canlynol: -

- Symud yn amlwg oddi wrth gladdu a llosgi gwastraff, sy'n ddulliau anghynaliadwy, a thuag at ailgylchu a chynaliadwyedd.
- Cyflwyno rhagdybiaeth yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygiadau claddu a llosgi gwastraff pellach yng Nghymru er lles cynaliadwyedd.
- Ble mai llosgi gwastraff yw'r unig ddewis ymarferol, dylai'r Cynulliad annog manteisio ar yr ynni a gynhyrchir fel y gellir ei ddefnyddio yn y cartref ac mewn diwydiant.

**Gwelliant 7 - Christine Humphreys – Gogledd Cymru**
Ychwanegu'r canlynol ar ddiwedd y cynnig: -

Yn ogystal, mae'r Cynulliad yn penderfynu: -

- Pennu, monitro a gwerthuso targedau ar gyfer gwella perfformiad amgylcheddol.
- Gosod canllawiau eglur ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn eu cynorthwyo i leihau lefel y traffig ar y ffyrdd.
- Ceisio cydweithrediad yr Undeb Ewropeaidd er mwyn cynorthwyo i ddatblygu cynlluniau amgylcheddol rhyngwladol.

**Gwelliant 8 - Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu'r dreth ychwanegol a osodir, a fydd yn taro economi Cymru yn galetach nag unrhyw ran arall o'r DU oherwydd ei dibyniaeth anghyfrannol ar y sectorau gweithgynhyrchu ac amaethyddol.

**Dadl Fer:** (i ddechrau erbyn 5pm)
**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth); Pobl Ifanc ac M.E.**

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm ddydd Mawrth, 16 Mai 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**